Archwilio Cymru
Audit Wales

**Cyfeirnod:** 3102A2022

**Dyddiad cyhoeddi:** Gorffennaf 2022

# Archwilio Cynllun Gwella 2022-23 Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Mae Cylchlythyr Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru rhif: W-FRSC(2021)07 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru barhau i adrodd yn erbyn Mesur Llywodraeth Leol 2009 nes bo Fframwaith Cenedlaethol newydd a threfniadau diwygiedig yn cael eu cyflwyno.

## Tystysgrif

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio Cynllun Gwella Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), wedi'i gyhoeddiad ym mis Mawrth 2022, yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, credaf fod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(6), (9), (8) a (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Awdurdod a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i:

- wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer ei swyddogaethau;
- gwneud trefniadau i sicrhau bod ei amcanion gwella yn cael eu cyflawni; a
- gwneud trefniadau i arfer ei swyddogaethau er mwyn i unrhyw safon perfformiad a bennir gan Weinidogion Cymru gael ei bodloni.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, neu ar ôl unrhyw ddyddiad arall a bennir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac am y wybodaeth a nodir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi sylw i ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth gyhoeddi ei asesiad.

Fel archwilydd yr Awdurdod, mae'n ofynnol imi o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur i gynnal archwiliad o'r Cynllun Gwella, i ardystio fy mod wedi gwneud hynny, ac i adrodd a wyf yn credu bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn unol â gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol.

## Cwmpas archwiliad y Cynllun Gwella

At ddibenion fy ngwaith archwilio, byddaf yn derbyn, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, y bydd hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn, nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb gwybodaeth, nac a ellir cyflawni'r Cynllun Gwella a gyhoeddir gan yr Awdurdod. Roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Awdurdod, felly, yn cynnwys adolygiad o'r cynllun i ganfod a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r asesiad yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth, a bod yr Awdurdod wedi rhoi sylw i ganllawiau statudol wrth ei baratoi a'i gyhoeddi.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud er mwyn adrodd a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur er mwyn nodi'r holl wendidau neu gyfleoedd i wella.



**Adrian Crompton**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

COPI: Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

Nick Selwyn, Rheolwr Archwilio